



CYFARWYDDWR PERFFORMIAD

HYSBYSEB SWYDD A DISGRIFIAD O'R RÔL





CYNNWYS

- Trosolwg
- Ein Hymrwymiad i Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
- Croeso
- Prif Ddyletswyddau
- Manyleb y Person
- Sut i Ymgeisio





TROSOLWG

Teitl y Swydd:

- Cyfarwyddwr Perfformiad

Cyflog:

£40,000 Llawn Amser

Lleoliad:

- Ystyrir opsiynau swyddfa (Caerdydd) neu hybrid hefyd.

Math o Rôl:

- Llawn Amser - 37 Awr yr wythnos

Gweithio hyblyg a hybrid, gydag ymrwymiad i fynychu'r swyddfa yn Hoci Cymru, Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru, Gerddi Sophia, Caerdydd, unwaith yr wythnos.



EIN HYMRWYMIAD I GYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT (EDI)

Mae Hoci Cymru wedi ymrwymo i greu amgylchedd amrywiol ac mae'n falch o fod yn rhan o raglen Hyrwyddwyr Amrywiaeth Stonewall. Bydd pob ymgeisydd cymwys yn cael ei ystyried am gyflogaeth heb ystyried hil, lliw, crefydd, rhywedd, hunaniaeth neu fynegiant rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, tarddiad cenedlaethol, geneteg, anabledd nac oedran.

Isod mae ychydig o enghreifftiau o arfer gorau lle rydym yn ymdrechu i ymgorffori EDI yn ein gwasanaethau bob dydd.

Mae pob aelod o staff yn Hoci Cymru wedi cwblhau'r hyfforddiant "Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth", gan ddangos ein hymrwymiad cadarn i greu amgylchedd cynhwysol a llawn parch yn y byd hoci yng Nghymru.

Rydym wedi cofrestru gyda siarter Equally Amazing EuroHockey:
<https://eurohockey.org/eurohockey-equally-amazing-campaign>





CROESO

Mae cyfle cyffrous wedi dod ar gael i arwain tîm Perfformiad Hoci Cymru fel ein Cyfarwyddwr Perfformiad.

Mae hwn yn gyfnod cyffrous iawn i fod yn rhan o'n camp ar y lefel hon. Mae ein rhaglenni Rhyngwladol Hîn yn parhau i berfformio'n dda ar lwyfan y Cyfandir a'r Byd, rydym yn parhau i drosglwyddo nifer dda o chwaraewyr i sgwadiau Datblygu Prydain Fawr a Hîn ac mae ein rhaglenni lau yn darparu cyfleoedd, profiadau a sylw i chwaraewyr a staff mewn Llwybr sydd wedi'i ddiffinio'n glir a chysylltiedig.

Mae'r Cyfarwyddwr Perfformiad yn gyfrifol am arwain cyfeiriad strategol, cynllunio a chyflwyno pob gweithgaredd hoci perfformiad uchel yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys goruchwyllo timau rhyngwladol hîn, llwybrau talent, strwythurau hyfforddi, ac integreiddio â Chwaraeon Cymru ac UK Sport drwy fframwaith Hoci Prydain Fawr. Mae'r rôl yn rhan o Dîm Arweinyddiaeth Weithredol Hoci Cymru.



PRIF DDYLETSWYDDAU

Strategaeth a Pholisi

- Arwain a chyflawni'r strategaeth perfformiad sefydliadol sy'n cyd-fynd â gweledigaeth ehangach Hoci Cymru. Adrodd i Fyrddau Hoci Cymru a Phrydain Fawr yn ôl yr angen.

Goruchwylio Timau Cenedlaethol:

- Rheoli rhaglenn'ri timau cenedlaethol hŷn a phontio, gan gynnwys cynllunio perfformiad, staffio, a chyflwyno cystadlaethau rhyngwladol.

Llwybr Talent a Datblygu Hyfforddwyr:

- Helpu i ddatblygu a chyd-fynd yn strategol â'r llwybr perfformiad domestig i ryngwladol; cefnogi adnabod a chynnydd hyfforddwyr.

Arweinyddiaeth Pobl a Diwylliant:

- Arwain diwylliant perfformiad uchel cadarnhaol gyda lles athletwyr a staff yn greiddiol iddo.

Cyllid

- Rheoli cyllidebau perfformiad yn gyffredinol, sicrhau gwerth am fuddsoddiad, cyflawni polisïau ariannol i chwaraewyr a chw'rdd â safonau adrodd cyrff cyllido.

Ymgysylltu â Rhanddeiliaid:

- Cynrychioli Hoci Cymru mewn fforymau perfformiad allanol a chydweithio â phartneriaid system allweddol gan gynnwys Chwaraeon Cymru, Hoci Prydain Fawr, clybiau, a phartneriaid academaidd.



MANYLEB Y PERSON

EICH PROFIAD A'CH GWYBODAETH

· Hanfodol:

- Profiad sylweddol mewn arweinyddiaeth perfformiad elitaidd yn y byd chwaraeon.
 - Gallu clir i arwain timau amlddisgyblaethol a chyflawni canlyniadau perfformiad.
- Gwybodaeth gadarn am systemau perfformiad uchel, hyfforddi a datblygu talent.
 - Medrus mewn datblygu strategaeth, rheoli staff a goruchwyllo cyllideb.

Dymunol:

- Profiad o fewn chwaraeon tîm neu ddigwyddiadau aml-chwaraeon.
 - Cyfarwydd â system perfformiad uchel y DU a chyd-destun chwaraeon Cymru.



SUT I YMGEISIO

I ymgeisio:

- Cyflwynwch CV a llythyr ategol yn amlinellu sut rydych chi'n bodloni meini prawf y rôl
- Anfonwch eich cais yn ôl i jane.price@hockeywales.org.uk
- Cyflwynwch wybodaeth monitro cydraddoldeb <https://forms.office.com/e/H5wki99TRE>
- Am ragor o wybodaeth am y rôl cysylltwch â Paul Whapham, Prif Swyddog Gweithredol, ar paul.whapham@hockeywales.org.uk



Dyddiad Cau

Canoldydd - 22nd Awst

Hoci Cymru
Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru
Caerdydd
CF11 9SW

www.hockeywales.org.uk info@hockeywales.org.uk

Facebook - @Hoci Cymru
X - @HockeyWales
Instagram - @hoci_cymru

Mae Hoci Cymru yn gyflogwr cyfle cyfartal ac mae wedi ymrwymo i gyflawni ein Polisiâu Tegwch. Rydym yn annog yn gadarnhaol ac yn croesawu ceisiadau o bob cymuned.

Mae Hoci Cymru yn diolch yn garedig i Chwaraeon Cymru a Hoci Prydain Fawr am eu cefnogaeth barhaus i hoci yng Nghymru.